

Craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r coronafeirws: materion allweddol o bwyllgorau'r Senedd

Briff Ymchwil

Corffennaf 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 7373**
E-bost: **gwasanaeth.ymchwil@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

© **Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2020**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r coronafeirws: materion allweddol o bwyllgorau'r Senedd

Briff Ymchwil

Gorffennaf 2020

Golygyddion:

Lucy Morgan ac Andrew Minnis



Cynnwys

1.Y cefndir.....	1
2.Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.....	2
2.1. Iechyd a llesiant plant.....	2
2.2. Gofal plant.....	2
2.3. Ysgolion	3
2.4. Addysg ôl-16.....	3
3.Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.....	4
3.1. Amaethyddiaeth	4
3.2. Bwyd	4
3.3. Gwarchod natur	4
3.4. Lles anifeiliaid	5
4.Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.....	5
4.1. Y Celfyddydau	5
4.2. Y diwydiannau creadigol.....	5
4.3. Newyddiaduraeth	6
4.4. Chwaraeon	6
4.5. Y Gymraeg	6

5.Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 6

- 5.1. Yr economi..... 6
- 5.2. Trafnidiaeth..... 8
- 5.3. Sgiliau..... 8

6.Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau 9

- 6.1. Cydraddoldeb a hawliau dynol 9
- 6.2. Llywodraeth Leol 10
- 6.3. Tai 10

7.Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol 11

8.Y Pwyllgor Cyllid 12

- 8.1. Cyllid a gwariant Llywodraeth Cymru 12
- 8.2. Cynlluniau a ariennir gan Lywodraeth y DU 13

9.Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon 13

- 9.1. Profi..... 13
 - 9.2. Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) 13
 - 9.3. Pobl sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n gwarchod..... 14
 - 9.4. Cartrefi gofal 14
-

9.5. Ailddechrau gwasanaethau iechyd rheolaidd.....	15
9.6. Iechyd meddwl.....	15

10.Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad..16

10.1. Deddfwriaeth	16
10.2. Cyfiawnder.....	16
10.3. Cyfansoddiad.....	16

11.Y Pwyllgor Deisebau.....17

12.Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.....17

12.1. Adferiad economaidd.....	17
12.2. Cydweithrediad â Llywodraeth y DU	17

1. Y cefndir

Ar 3 Gorffennaf, bydd **Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog** y Senedd yn craffu ar waith y Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AS, mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â phandemig y coronafeirws. Bydd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, Jeremy Miles AS, yn ymuno â Phrif Weinidog Cymru fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydlynu gwaith Llywodraeth Cymru o ran adfer. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys Cadeiryddion holl bwyllgorau eraill y Senedd ac mae'n cwrdd unwaith y tymor fel arfer.

Yn ystod y pandemig, mae pwyllgorau'r Senedd wedi canolbwyntio eu gwaith ar effaith y feirws a sut mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb. Nid yw'r papur briffio hwn yn trafod yr holl faterion o ganlyniad i'r pandemig sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod sesiynau craffu. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar faterion allweddol sy'n edrych ymlaen at y dyfodol. Cafodd ei baratoi i gefnogi Aelodau o'r Pwyllgor. Fodd bynnag, rydym yn ei gyhoeddi o ystyried budd ehangach y cyhoedd o ran yr ymateb i'r pandemig.

Mae'r dystiolaeth gefndirol ym mhob pwyllgor, a'r adroddiadau a lunnir gan y pwyllgorau hynny, **ar gael ar eu gwefannau**.

2. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

2.1. Iechyd a Llesiant plant

- Er bod y dystiolaeth bresennol yn awgrymu bod plant yn llai tebygol o gael eu heffeithio'n ddifrifol gan y feirws ei hun, mae'r effaith tymor hwy ar eu hiechyd o ganlyniad i oedi wrth geisio, neu fethu â chael, mynediad at gyngor neu driniaeth ar gyfer cyflyrau nad ydynt yn ymwneud â'r coronafeirws yn peri fwy o bryder. Yn ogystal ag effaith lleihau'r nifer sy'n manteisio ar raglenni brechu arferol.
- Mae effaith cyfyngiadau'r coronafeirws ar iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, a sut y gallwn gael dealltwriaeth gliriach o'u hanghenion hirdymor, yn destun pryder. Mae pryderon ynghylch capasiti gwasanaethau cymorth i ymateb i'r galw cynyddol am gymorth.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod y gwasanaethau digidol (e.e. ymgynghoriadau fideo) a gyflwynwyd yn GIG Cymru yn ystod y pandemig yma i aros. Mae pryderon ynghylch eu heffeithiolrwydd a'r cyfleoedd i nodi ac amddiffyn plant sy'n agored i niwed. Efallai nad yw gwasanaethau ar-lein yn addas i bob plentyn a pherson ifanc, ac nid oes gan bob teulu fynediad at dechnoleg ddigidol.
- Parhad o ran gwasanaethau diogelu ac amddiffyn plant a chymorth i blant sy'n agored i niwed.
- Sut mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswydd gyfreithiol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mewn penderfyniadau ynghylch yr ymateb i'r coronafeirws, yn enwedig pa asesiadau a wnaed o'r effaith ar hawliau plant.

2.2. Gofal plant

- Mae gan leoliadau gofal plant rôl wrth gefnogi'r ymateb i'r coronafeirws drwy ddarparu ar gyfer plant gweithwyr allweddol. Sut mae iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli yn y lleoliadau hyn, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol i blant ifanc iawn. Effaith llacio'r safonau gofynnol (cymarebau staffio) dros dro mewn lleoliadau er mwyn sicrhau parhad yn y ddarpariaeth.
- Hyfywedd ariannol darparwyr gofal plant yn ystod y cyfyngiadau symud ac ar ôl iddynt gael eu llacio.
- Rheolau ynghylch pwy all ddarparu gofal plant yn ystod y pandemig, er enghraifft, aelodau o'r teulu nad ydynt yn byw yn yr un cartref â'r plentyn.

- Y camau nesaf ar gyfer ailagor lleoliadau gofal plant i ystod ehangach o blant y tu hwnt i blant gweithwyr allweddol a phlant sy'n agored i niwed.

2.3. Ysgolion

- Iechyd a diogelwch yn yr ysgolion/hybiau sy'n darparu ar gyfer plant gweithwyr allweddol a phlant sy'n agored i niwed o ran nifer y staff a'r plant sy'n mynychu, a rheoli mesurau cadw pellter cymdeithasol.
- Parhad dysgu i bob disgybl, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn defnyddio darpariaeth mewn hybiau. Yr anghydraddoldeb posibl sy'n deillio o wahanol brofiadau dysgu gartref plant a phobl ifanc oherwydd ffactorau fel technoleg a chymhorthion dysgu digidol eraill, tai ac amodau byw, a gallu rhieni i gefnogi dysgu yn y cartref.
- Ailagor ysgolion yn raddol o 29 Mehefin. Sut y bydd cadw pellter cymdeithasol a lleihau presenoldeb disgyblion (uchafswm o draean) yn gweithio'n ymarferol; trafndiaeth a materion logistaidd eraill.
- Y dull strategol i ailddechrau ysgolion, ailstrwythuro tymhorau'r ysgol a sut y bydd y 'normal newydd' yn edrych ym mis Medi. Sut mae hyn yn cyd-fynd â phum egwyddor y Gweinidog Addysg a chanllaw goleuadau traffig Llywodraeth Cymru.
- Effaith canslo arholiadau 2020, goblygiadau ar gamau nesaf myfyrwyr a'r effaith ar y cwricwlwm yn 2021 a chymwysterau o ganlyniad i'r amser addysgu a gollwyd.

2.4. Addysg ôl-16

- Cynaliadwyedd y sector addysg uwch yng Nghymru dros y 18 mis nesaf tra'n sicrhau bod myfyrwyr yn mynd drwy broses addysgu, dysgu ac asesu o ansawdd uchel. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn fodlon neu y byddai'n barod i'w cymryd i sefydlogi'r sector yn ei gyfanrwydd (gyda neu heb weithrediad gan Lywodraeth y DU); neu sut y byddai'n ceisio rheoli sefyllfa lle mae risg uchel y byddai sefydliad yn methu.
- Y rôl y gallai'r sector addysg bellach ei chwarae mewn dirwasgiad i leihau diweithdra ymysg pobl ifanc ac ailsgilio neu uwchsgilio oedolion a gafodd eu diswyddo. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn barod i'w cymryd i alluogi'r rôl hon.
- A yw Llywodraeth Cymru yn asesu graddfa effaith dysgu bylchog ar gynnydd dysgwyr ôl-16, o fewn sefydliadau, ac wrth iddynt symud ymlaen i waith neu i astudio mewn man arall. A fydd Llywodraeth Cymru wedyn yn ceisio diogelu'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed yn hyn o beth ac os felly, sut?

3. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

3.1. Amaethyddiaeth

- Cynllun Llywodraeth Cymru i gefnogi'r diwydiant llaeth Mae'r cyfnod gwneud cais ar agor rhwng 18 Mehefin a 14 Awst. A gaiff hyn ei ymestyn? Mae rhanddeiliaid yn dweud y gallai fod angen cynlluniau cymorth ar gyfer y sectorau cig eidion a chig oen hefyd.
- Siomwyd undebau ffermio gan ddiffyg tryloywder o ran trafodaethau ynghylch ailgyfeirio taliadau datblygu gwledig i gefnogi'r diwydiant o ganlyniad i'r coronafeirws. Maent yn feirniadol o reoliadau arfaethedig Llywodraeth Cymru ar lygredd amaethyddol ac amseriad y cyhoeddiad yn ystod y pandemig.
- Pa gyfleoedd sydd ar gael i gynyddu cynhyrchiant garddwriaethol yng Nghymru yn sgil y pandemig?
- Sut y gallai'r pandemig effeithio ar ddatblygiad polisi amaethyddol ar ôl Brexit.

3.2. Bwyd

- Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chynllunio ar gyfer y sectorau gwasanaethau bwyd a diod wrth iddynt baratoi i ailagor?
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu i liniaru'r problemau sy'n codi wrth fynd â bwyd i'r archfarchnadoedd, gan gynnwys llacio'r amseroedd ar gyfer cludo ac oriau agor siopau. Mae'r Pwyllgor am sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel nad ydynt ar waith am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol.
- Mae capasiti i brosesu bwyd yn parhau i fod yn broblem yng Nghymru, gyda llawer o gynnyrch amrwd yn cael ei gludo i Loegr i'w brosesu.
- Mae'r Pwyllgor yn ymchwilio i gyfleoedd sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig mewn perthynas â lleihau cadwyni cyflenwi bwyd, gan gynnwys lleihau allyriadau carbon.

3.3. Gwarchod natur

- Mae'r Pwyllgor yn trafod sut y mae'r pandemig yn effeithio ar sefydliadau anlywodraethol amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys cyllid, y gallu i reoli

gwarchodfeydd natur, cyllideb atodol Llywodraeth Cymru a galwadau am 'adferiad gwyrdd'.

3.4. Lles anifeiliaid

- Mae'r Pwyllgor yn ymchwilio i bryderon ynghylch lles anifeiliaid gyda'r Gweinidog. Mae hyn yn cynnwys lles anifeiliaid anwes yn ystod yr argyfwng a mynediad at wasanaethau milfeddygol. Mae lles da byw, gan gynnwys profion TB buchol, hefyd yn cael eu hystyried.

4. Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

4.1. Y Celfyddydau

- Yn gyffredinol, nid oes gan sefydliadau elusennol ac unigolion creadigol gronfeydd sylweddol o arian wrth gefn ac felly maent yn agored i sioc economaidd y pandemig.
- Mae gweithlu'r celfyddydau wedi'i ddominyddu gan weithwyr llawrydd, sydd wedi colli'r rhan fwyaf o'u comisynau. Mae Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod Coronafeirws Llywodraeth y DU a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig yn anaddas i lawer o bobl sy'n gweithio ym maes celfyddydau.
- Mae'r anawsterau presennol yn waeth fyth i sefydliadau (lleoliadau yn bennaf) sy'n gwneud cyfran uchel o'u hincwm o werthiannau tocynnau, manwerthu a gwariant eilaidd arall. Mae 67 o'r sefydliadau celfyddydol allweddol a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn colli tua £1.45 miliwn yr wythnos. Mae Cyngor y Celfyddydau wedi amcangyfrif y gallai Canolfan y Mileniwm golli £20 miliwn mewn incwm eleni.
- Mae angen i'r rhan fwyaf o leoliadau diwylliannol ddod yn agos at fod yn llawn ar gyfer digwyddiadau er mwyn gwneud elw. Nid yw ailagor gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol yn ymarferol yn ariannol i'r rhan fwyaf o sefydliadau celfyddydol.

4.2. Y diwydiannau creadigol

- Mae tua 40,000 o weithwyr llawrydd yn gweithio yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae **gwaith ymchwil** gan Gaerdydd Creadigol ac Uned Economi Greadigol Prifysgol Caerdydd yn awgrymu bod y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig yn eithrio

rhannau sylweddol o'r gweithlu sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain, ac y byddai'r iawndal ddim ond yn gyfran fach o'r hyn a gaiff gweithwyr Talu wrth Ennill sydd ar ffyrlo.

- Mae llawer o leoliadau cerddoriaeth bach yn gweithredu gyda ffiniau elw bach ac nid ydynt yn barod i wrthwynebu gorfod cau o ganlyniad i'r mesurau cadw pellter cymdeithasol.

4.3. Newyddiaduraeth

- Cododd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu bryderon ynghylch camadrodd ar faterion datganoledig yn ystod y pandemig gyda Phwyllgor DCMS San Steffan a sefydliadau'r cyfryngau.

4.4. Chwaraeon

- Yn ystod y cyfyngiadau symud nid yw'r lefelau cyffredinol o **weithgarwch corfforol** wedi newid yn sylweddol, er bod yr anghydraddoldebau presennol wedi dyfnhau. Mae pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch yn gwneud mwy o ymarfer corff, ac mae pobl o grwpiau is yn gwneud llai.
- Ar lefel clwb, corff llywodraethu cenedlaethol, yr awdurdod lleol a'r ymddiriedolaeth hamdden, mae effaith economaidd cyfyngiadau'r coronafeirws yn bygwth gallu chwaraeon i ddychwelyd at lefelau'r gweithgarwch cyn y pandemig.

4.5. Y Gymraeg

- Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ddigwyddiadau diwylliannol Cymraeg. Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, ynghyd â digwyddiadau diwylliannol Cymraeg eraill fel Tafwyl, wedi'u canslo yn eu ffurf wreiddiol. Gallai hyn gael effaith hirdymor ar gyllid y sefydliadau hyn. Mae'r Urdd, er enghraifft, wedi awgrymu y gallai'r pandemig gostio hyd at £4 miliwn i'r sefydliad ar ôl cau tair o'i ganolfannau preswyl ynghyd â chanslo'r Eisteddfod. Bydd cefnogi sefydliadau a digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol yn hollbwysig i ddyfodol yr iaith a tharged Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg.

5. Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

5.1. Yr economi

- Argymhellodd **y Pwyllgor** y dylai Llywodraeth Cymru rannu ei meddylfryd o ran sut y gallai fod angen i'w dull economaidd presennol newid rhwng y tymor

canolig a'r tymor hwy o ganlyniad i'r pandemig, a rhoi awgrym cynnar o sut y gallai "adeiladu nôl yn well" edrych.

- Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth am ofynion ariannu cymorth busnes tymor hwy i Gymru yn sgil ymestyn y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod Coronafeirws tan fis Hydref 2020.
- Gofynnodd i gael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y rôl y gallai Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ei chwarae wrth fenthyca cymorth ychwanegol i helpu Cymru adfer o effeithiau'r pandemig, a'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau diweddar gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr amserlenni ar gyfer cyhoeddiadau yn ymwneud â'r gronfa.
- Argymhellodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y dylai Llywodraeth Cymru nodi manylion unrhyw sylwadau y mae wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU ynghylch pwysigrwydd cyllid ar gyfer rhaglenni cymorth busnes, prentisiaethau a sgiliau, i gynorthwyo Cymru i adfer o'r coronafeirws. Ar hyn o bryd mae'r meysydd hyn yn cael cyllid drwy gronfeydd strwythurol yr UE, y bydd angen dod o hyd i gyllid o rywle arall i'w disodli.
- Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei meddylfryd ynghylch polisi rhanbarthol yng ngoleuni'r pandemig a'r cymorth fydd yn angenrheidiol i wahanol ranbarthau; yn benodol pa newidiadau y gallai fod eu hangen i'r strwythurau presennol o gymorth rhanbarthol neu flaenoriaethau economaidd rhanbarthol.
- Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru roi adroddiad rheolaidd am effeithiau'r pandemig ar wahanol sectorau economaidd, ar ranbarthau Cymru ac ar wahanol rannau o'r gymdeithas megis pobl â nodweddion gwarchoddedig gwahanol.
- Pan gaiff y cyfyngiadau symud eu llacio, dywedodd y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir a chyson i bob busnes ynghylch cadw pellter cymdeithasol, a hynny mor fuan ymlaen llaw â phosibl er mwyn caniatáu iddynt baratoi.
- Wrth gyhoeddi ei chanllawiau diogelwch i'r sectorau mewn perthynas â dychwelyd i weithio, argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried blaenoriaethu nid yn unig y sectorau a fydd yn agor gyntaf ond hefyd y sectorau hynny lle bydd angen y gwaith mwyaf. Er enghraifft, efallai mai twristiaeth fydd un o'r sectorau olaf i ailagor, ond bydd angen i rai busnesau twristiaeth weithredu newidiadau strwythurol.

5.2. Trafnidiaeth

- Tynnodd y Pwyllgor sylw at faterion yn ymwneud ag argaeledd bysiau a threnau ar gyfer gwasanaethau sy'n cadw pellter cymdeithasol. Roedd gweithredwyr bysiau yn aneglur yng nghanol mis Mehefin am drefniadau ariannu cyhoeddus i gefnogi gwasanaethau sy'n cadw pellter cymdeithasol o 1 Gorffennaf ymlaen.
- Mae gyrwyr tacsï a cherbydau hurio preifat yn cael trafferth ar incwm isel, ac mae pryderon o ran diogelwch o ran y gost a'r broses gymeradwyo ar gyfer sgriniau amddiffynnol.
- Mae'r diwydiant awyrennau wedi cael ei daro'n galed. Mae benthyciadau presennol i faes awyr Caerdydd wedi cael eu hailbroffilio ac nid yw'n glir sut y bydd y maes awyr yn ariannu rhai rhwymedigaethau rheoleiddio am fod cyllid bellach yn cael ei ddargyfeirio i sicrhau bod y busnes yn goroesi.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi galw ar awdurdodau lleol i gyflwyno cynigion ynghylch teithio llesol dros dro a mesurau trafndiaeth gynaliadwy. Holodd y Pwyllgor am y broses a'r meini prawf perthnasol. Mae Llywodraeth Cymru **bellach wedi cyhoeddi** canlyniad y broses hon.
- O ystyried pryderon y cyhoedd am ddiogelwch trafndiaeth gyhoeddus, mae dyfodol hirdymor trafndiaeth gyhoeddus yn ansicr os yw arferion y cyhoedd yn newid a bod y defnydd o geir yn cynyddu.

5.3. Sgiliau

- Dywedodd yr Athro Ewart Keep wrth Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau fod diweithdra ymysg pobl ifanc yn fater o bwys mawr a fydd yn dod i'r amlwg yn y dirwasgiad sydd i ddod. Dywedodd "research evidence and the experience from previous recessions like this is that, for the most disadvantaged young people, the key is the provision of work experience and transition support, but work experience is utterly critical". Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r mater hwn ac yn cynnig profiad gwaith (er enghraifft, drwy brentisiaethau) ar adeg pan fydd y farchnad lafur wedi crebachu ac y gallai'r cyfleoedd fod yn sylweddol is?
- Gwnaeth y gyllideb atodol gyntaf (Mai 2020) leihau'r dyraniadau gwreiddiol ar gyfer y rhaglen brentisiaeth a'r rhaglen cyflogadwyedd a sgiliau. Nid yw'n hysbys bellach ychwaith faint o arian yr UE a gaiff ei ddyrannu i'r ddau. Ar adeg pan fo diweithdra ymysg pobl ifanc yn fater o bwys mawr, a phan fo ailsgilio oedolion yn debygol o ddod yn bwysig iawn, ymddengys fod lefel y cyllid sydd ar gael i ddwy raglen allweddol wedi'i ostwng £17.7 miliwn (£11.8 miliwn ar gyfer prentisiaethau, £5.9 miliwn ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau).

6. Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

6.1. Cydraddoldeb a hawliau dynol

- Mae pobl Cymru yn fwy agored i'r coronafeirws oherwydd ei phoblogaeth hŷn a'r nifer uwch o gyflyrau iechyd penodol sy'n bodoli. Mae gan ddynion a phobl o grwpiau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig gyfraddau marwolaeth llawer uwch yn gyfrannol. Mae cyfraddau marwolaethau yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru bron i ddwywaith mor uchel â'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Priodolwyd y cyfraddau marwolaethau uwch i ffactorau demograffig ac economaidd-gymdeithasol, yn ogystal â phroffil iechyd pobl. Mae effaith economaidd y feirws hefyd yn debygol o effeithio'n anghymesur ar y rhai sydd eisoes ar incwm isel.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd ystod o gamau i leddfu'r effaith anghymesur ar grwpiau, megis drwy sefydlu grŵp cynghori ar faterion penodol a wynebwr gan grwpiau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys cyflwyno offeryn asesu hunan-risg ar gyfer gweithwyr iechyd), cynyddu'r Gronfa Cymorth Dewisol, darparu cyfieithydd iaith arwyddion mewn sesiynau briffio dyddiol i'r wasg, diwygio'r cyfyngiadau symud er mwyn galluogi pobl sydd â chyflyrau iechyd penodol neu anabledau i adael eu tai fwy nag unwaith y dydd i wneud ymarfer corff, a sicrhau bod pobl nad oes hawl ganddynt i gael arian cyhoeddus yn gallu cael mynediad at loches brys.
- Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip wrth y Pwyllgor "all policies, not just policies relating to my portfolio, but across the Welsh Government, are rigorously scrutinised in terms of equality impacts". Nid yw'r asesiadau hyn wedi'u cyhoeddi.
- Clywodd y Pwyllgor bryderon o ran y ffaith y bydd mwy o bobl sydd wedi cael eu cam-drin yn dod i'r amlwg i ddefnyddio gwasanaethau wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio. Mae'r sector yn galw am gyllid brys i dalu am golledion mewn refeniw, costau cyfarpar diogelu personol a lleihad mewn gwelyau lloches o ganlyniad i'r mesurau cadw pellter cymdeithasol. Clywodd y Pwyllgor am gynnydd yn nifer y galwadau i'w llinell gymorth, a phryderon am bobl hŷn sy'n gwarchod ac yn dibynnu ar bartneriaid neu berthnasau sy'n eu cam-drin yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am gynaliadwyedd ariannol hirdymor y sector, o gofio nad yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i fodel ariannu cynaliadwy wedi cael ei gyflawni ar ôl pedair blynedd.

- Mae cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer tywys Cymru allan o'r pandemig yn nodi egwyddorion a fydd yn cael eu defnyddio i archwilio ffyrdd o lacio'r cyfyngiadau presennol. Un o'r saith egwyddor hyn yw asesu a fydd y mesur yn cael "effaith gadarnhaol iawn ar gydraddoldeb", ond nid yw'n sôn am hawliau dynol, yn wahanol i'r cynllun cyfatebol yn yr Alban.
- Mae'r Pwyllgor yn parhau i gymryd tystiolaeth ynghylch yr effaith tymor hwy ar gydraddoldeb yng Nghymru, gan gynnwys anghydraddoldebau iechyd, yr effaith ar ragolygon graddau disgyblion o gefndiroedd duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, hawliau dynol pobl hŷn a phobl anabl, a'r effaith economaidd-gymdeithasol ar fenywod.

6.2. Llywodraeth Leol

- Mae awdurdodau lleol wedi cael cymorth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r pandemig (tua £110 miliwn gyda chyllid ychwanegol a ddisgwyllir o £78 miliwn). Dyrannwyd cyfran sylweddol i feysydd gwasanaethau a pholisi penodol, megis gofal cymdeithasol, prydau ysgol am ddim a chysgu ar y stryd. Nid yw'r cyllid a ddarperir o reidrwydd yn gwneud yn iawn am yr incwm a gollwyd yn sgil cau canolfannau hamdden, lleoliadau chwaraeon a pherfformio, ac o ganlyniad i ffioedd parcio is, dirwyon traffig a'r rhenti ar unedau diwydiannol, er enghraifft.
- Hefyd, cadarnhaodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol fod Lywodraeth Cymru wedi darparu rhywfaint o'r grant cynnal refeniw ar y dechrau i gefnogi awdurdodau lleol yn ystod y pandemig (tua £ 526 miliwn), a'i bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddeall eu diffygion mewn incwm. Nododd **y Gweinidog**: "Our big worry is not now. I'm not worried about now. We're worried about what will happen at the other end of the year."
- Cafodd yr Aelodau eu calonogi gan rai newidiadau cadarnhaol i'r broses o ddarparu gwasanaethau ac arferion gwaith awdurdodau lleol o ganlyniad i'r pandemig. Gellid neu dylid parhau â rhai o'r rhain ar ôl y pandemig. Yn benodol, roedd y newid agwedd gan rai awdurdodau lleol tuag at gyrff trydydd sector yn enghraifft amlwg. Mae'r rhain bellach yn cael eu hystyried yn bartneriaid hanfodol o ran y broses o wneud penderfyniadau.

6.3. Tai

- Roedd y Pwyllgor yn dymuno bod pobl sy'n cysgu ar y stryd a phobl ddigartref eraill sydd wedi cael llety dros dro yn ystod y pandemig yn cael eu cefnogi i gael mynediad at lety hirdymor cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio

canllawiau i gefnogi cam dau o'i hymateb i ddigartrefedd yn ystod y pandemig. Mae cronfa untro (refeniw a chyfalaf) gwerth £20 miliwn wedi cael ei darparu i gefnogi awdurdodau lleol â hyn. Mae angen cyflwyno cynlluniau cam 2 i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mehefin 2020.

- Mae'r Pwyllgor yn pryderu am feysydd nad ydynt wedi'u datganoli sy'n effeithio'n uniongyrchol ar dai, gan gynnwys cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol (a gafodd eu cynyddu gan Lywodraeth y DU o ganlyniad i'r pandemig) a chyfyngiadau ar bobl nad oes hawl ganddynt i gael arian cyhoeddus.
- Mae'n ansicr beth fydd yn digwydd pan fydd y moratoriwm ar achosion cymryd meddiant y llys yn dod i ben ym mis Awst a gall landlordiaid droi tenantiaid allan eto. Er bod landlordiaid cymdeithasol wedi cytuno na fydd neb yn cael eu troi allan oherwydd caledi ariannol a achosir gan y coronafeirws, mae pryderon ynghylch yr hyn a allai ddigwydd yn y sector rhentu preifat.

7. Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

- Daw cyfnod pontio Brexit i ben ar 31 Rhagfyr. Mae'r pandemig wedi tarfu ar y negodiadau ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol a pharatoadau domestig, sy'n ofynnol p'un a ydynt yn dod i gytundeb ai peidio. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau na fydd yn ceisio ymestyn y cyfnod pontio. Mae hyn yn gadael pum mis i'r negodiadau ar y berthynas yn y dyfodol ddod i ben, ac i fargen gael ei chadarnhau gan y DU a'r UE. Cytunodd y ddwy ochr mewn cynhadledd lefel uchel ar 15 Mehefin i ddwysau trafodaethau rhwng y partïon. Mae Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog yr Alban wedi ysgrifennu at Brif Weinidog y DU i alw am estyniad i'r cyfnod pontio yng ngoleuni'r pandemig.
- Dywedodd **y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd y canlynol wrth y Pwyllgor** "mae graddfa'r argyfwng presennol wedi cael effaith enfawr ar allu pobl, busnesau a sefydliadau eraill i ystyried diwedd y cyfnod pontio, heb sôn am gymryd camau i baratoi ato." Mae hyn yn cynnwys gweithredu unrhyw drefniadau o ran y berthynas yn y dyfodol, gan gynnwys seilwaith, gwiriadau a gweithrediadau ffiniau newydd, rheolau teithio a masnachu newydd a'r posibilrwydd o amharu ar gyflenwadau bwyd a meddyginiaethau. Mae parodrwydd hefyd yn cynnwys gweithredu Cytundeb Ymadael y DU a'r UE, gan gynnwys y protocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon, a fydd yn debygol o effeithio ar borthladdoedd Cymru, y defnydd o ffyrdd a rheilffyrdd ar gyfer cludo nwyddau, a hawliau dinasyddion.

- Mae rhaglen ddeddfwriaethol ddomestig i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio yn mynd rhagddo, gan gynnwys **“rhaglen arwyddocaol o offerynnau statudol”**, a chytundeb ar fframweithiau polisi cyffredin y DU newydd i ddisodli'r rhai sydd mewn grym drwy'r UE ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn ceisio negodi a/neu ymuno â chyfres o gytundebau rhyngwladol, gan gynnwys ei Rhaglen Parhad Masnach, a chytundebau masnach newydd gyda'r Unol Daleithiau, Siapan, Awstralia a Seland Newydd, y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt i gyd.
- Mae'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd wedi dweud hefyd y bu **adleoli sylweddol** i staff Llywodraeth Cymru wrth baratoi i ymateb i'r pandemig.

8. Y Pwyllgor Cyllid

8.1. Cyllid a gwariant Llywodraeth Cymru

- Mae angen i Lywodraeth Cymru, ar y cyd â Llywodraeth y DU, ymchwilio i'r achos dros ariannu cyllid canlyniadol mewn perthynas â'r coronafeirws i adlewyrchu anghenion ychwanegol y boblogaeth hŷn a'r sector lletygarwch yng Nghymru.
- Trafododd y Pwyllgor **gais Llywodraeth Cymru** i Lywodraeth y DU lacio'r terfynau blynyddol o fewn pwerau benthyg a mynediad i gronfa wrth gefn Cymru, a hefyd a ellir cynyddu'r terfynau benthyca er mwyn cefnogi ei rhaglenni cyfalaf ymhellach eleni os oes angen ac er mwyn helpu'r adferiad economaidd dros y tymor hwy.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio pwerau i symud cyllid cyfalaf i refeniw. Mae'n bwysig bod effeithiau ehangach gohirio neu ganslo prosiectau cyfalaf yn cael eu trafod fel rhan o unrhyw benderfyniad o'r fath.
- Trafododd y Pwyllgor gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd sut mae ei rôl yn rhyngweithio â rôl y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd. Mae'n bwysig bod gan y Gweinidog Cyllid rôl wrth asesu effaith a goruchwylio dyraniadau cyllid ar gyfer effaith ehangach polisiâu arfaethedig i lacio'r cyfyngiadau symud a chefnogi busnesau, y sector cyhoeddus ac unigolion.
- Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd angen darparu cyllid ychwanegol sylweddol eleni. Mae'n argymhell: bod Llywodraeth Cymru yn cyflymu gwaith i gefnogi economïau lleol, gan gynnwys ailffocysu hyn i wneud yn iawn am yr amgylchiadau presennol, megis yr effaith ar ganol trefi; darparu rhagor o wybodaeth am sut y mae cyllid yn cael ei ail-flaenoriaethu i ganolbwyntio

ar adferiad gwyrdd; a rhagor o fanylion am faint fydd yn cael ei ddarparu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol i drafnidiaeth. Hefyd, mae angen bod yn fwy penodol o ran senarios cynllunio sy'n cael eu hystyried ar gyfer diwedd cyfnod pontio'r UE a'r cyllid cysylltiedig sydd ei angen.

8.2. Cynlluniau a ariennir gan Lywodraeth y DU

- Cred y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cael gwybod am ddatganiadau allweddol sy'n effeithio ar bobl a busnesau Cymru, megis newidiadau i'r Cynllun Cadw Swyddi, mewn modd amserol sy'n ei galluogi i gynllunio polisiau cydategol mewn modd effeithiol.

9. Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

9.1. Profi

- Mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael eu beirniadu am fethiant parhaus i gyrraedd targedau profi dyddiol, ac mae pryderon hefyd ynghylch yr anawsterau y mae llawer yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at brofion. Mae'r polisi ar brofion mewn cartrefi gofal wedi newid yn aml, a dim ond yn ddiweddar y darparwyd profion ar gyfer holl breswylwyr a staff cartrefi gofal.
- Mae'r newid o 1 Mehefin i'r cam Profi, Orlhain, Diogelu yn her fawr, gan gynnwys yr angen am gynnydd sylweddol o ran y capasiti i brofi a chyflawni, yn ogystal â'r gwaith sylweddol o olrhain cysylltiadau.
- Mae rhaglen brofi ac olrhain cysylltiadau effeithiol yn rhan o fframwaith Llywodraeth Cymru i dywys Cymru allan o'r pandemig, ac ystyrir ei bod yn bwysig er mwyn llacio'r cyfyngiadau ymhellach.

9.2. Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

- Ar ôl pwysau ar y dechrau, mae cyflenwad ac argaeledd PPE wedi gwella ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod wrthi'n cefnogi mwy o gynhyrchu domestig, er bod tua 90 y cant o PPE Cymru yn dal i ddod o dramor. Fodd bynnag, mae cyrff proffesiynol wedi nodi gwasgbwyntiau, yn enwedig yn y sector gofal ac o ran sicrhau bod PPE yn ffittio'n iawn; byddant yn parhau i geisio am sicrwydd ynghylch parhad yn y cyflenwad o PPE, yn enwedig ar ôl i'r cyfyngiadau symud presennol gael eu llacio.

9.3. Pobl sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n gwarchod

- Mae cael cymorth a chefnogaeth gan wasanaethau, megis gwasanaeth blaenoriaethu danfoniadau gan archfarchnadoedd, yn amodol ar gael llythyr. Dywedodd **Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol** fod meddygon teulu yn cael eu gofyn i roi pobl ar y rhestr gan fod angen y gwasanaethau hyn arnynt ac y byddai wedi bod yn well ceisio gwahanu'r mynediad at wasanaethau oddi wrth y cyngor meddygol. Codwyd y mater hwn hefyd gan gartrefi gofal sy'n cael trafferth cael mynediad at ddanfoniadau bwyd.
- Mae fferyllfeydd wedi gweld cynnydd sylweddol mewn danfoniadau meddyginiaethau. Cododd **y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol** y mater o ran cynaliadwyedd y gwasanaeth danfon, yn enwedig os yw hyn yn parhau i fisoedd y gaeaf.
- Ar hyn o bryd gofynnir i'r **rhai sy'n gwarchod** barhau i wneud hynny tan 15 Awst 2020.

9.4. Cartrefi gofal

- Mae'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn pryderu am y pwysau ariannol sylweddol y mae cartrefi gofal Cymru yn eu hwynebu. Roedd y sector cartrefi gofal eisoes yn fregus yn ariannol. Mae cyfraddau defnydd gostyngol yn ystod yr argyfwng yn golygu bod llawer o gartrefi yn wynebu trafferthion ariannol. Dywedodd Fforwm Gofal Cymru oni bai bod cefnogaeth frys ar y ffordd, y bydd cartrefi gofal yn cau o un wythnos i'r llall yn ystod yr haf. Esboniodd fod nifer y preswylwyr yn lleihau o ganlyniad i farwolaethau a bod cartrefi yn teimlo na allant dderbyn pobl newydd (yn enwedig y rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty) er mwyn amddiffyn preswylwyr presennol. Mae pryderon eraill y bydd polisi newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru na ddylai cartrefi gofal dderbyn preswylwyr newydd fel mater o drefn nes nad ydynt wedi cael unrhyw achosion newydd am 28 diwrnod yn rhoi pwysau ariannol pellach ar y sector.
- Mae pryder ynghylch a ddarparwyd digon o amddiffyniad i breswylwyr cartrefi gofal, ac a fydd digon yn cael ei ddarparu. Mae Llywodraethau y DU a Llywodraeth Cymru wedi cael eu beirniadu am beidio â chynnig digon o brofion mewn cartrefi gofal, ac yn arbennig am beidio â rhoi prawf i gleifion ysbyty yn gynt wrth eu rhyddhau i gartrefi gofal. Ar 21 Mai, galwodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i Lywodraeth Cymru gael ei harchwilio gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynghylch pryderon bod hawliau pobl hŷn o bosibl wedi cael eu torri. Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei fod yn pryderu'n fawr ac yn ystyried defnyddio ei holl

bwerau i ddiogelu hawliau pobl hŷn. Mae diffyg cyswllt ag anwyliaid hefyd wedi effeithio'n sylweddol ar lesiant preswylwyr. Mae hyn yn dechrau newid yn awr, gyda rhai ymweliadau awyr agored yn cael eu caniatáu, yn unol â llacio'r cyfyngiadau symud ar 1 Mehefin.

9.5. Ailddechrau gwasanaethau iechyd rheolaidd

- Mae'r defnydd o wasanaethau'r GIG yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol yn ystod yr argyfwng, gan gynnwys gostyngiad o 25 y cant yn nifer y cleifion sy'n gweld eu meddyg teulu, adroddiadau am ostyngiadau o 60 y cant yn nifer y bobl sy'n mynd i'r adran achosion brys ac ar un adeg 35 y cant yn nifer y derbyniadau brys. Roedd nifer y bobl a oedd yn mynd i'r adran achosion brys ym mis Mai 2020 yn dal i fod 36 y cant yn is nag ym mis Mai 2019. Ar 15 Mehefin, roedd tua 23 y cant o welyau ysbyty yng Nghymru yn wag. Gallai'r cwmp hwn mewn defnydd arwain at ddiagnosis hwyr, cymhlethdodau neu waethygiad yng nghyflwr claf, gyda chynnydd hefyd yn yr amseroedd aros ar gyfer gofal dewisol a chanserau.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fframwaith ar gyfer y posibilrwydd o aildechrau nifer o wasanaethau rheolaidd. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch y galwadau clinigol hirdymor ar y GIG ar ôl i'r cyfyngiadau presennol gael eu llacio, gyda nifer cynyddol o gleifion y bydd arnynt angen cymorth adsefydlu, gan gynnwys y rhai sy'n gwella o'r coronafeirws.

9.6. Iechyd meddwl

- Mae effaith y pandemig a'r mesurau aros gartref ar iechyd meddwl a llesiant pobl yn bryder sylweddol. Mae amrywiaeth eang o ffactorau cyfrannol, gan gynnwys rhagor o straen, teimlo'n ynysig, tarfu ar arferion arferol, ansicrwydd ariannol, problemau cydberthynasau, cam-drin a phrofedigaeth. Gall y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl eisoes fod yn poeni am lai o fynediad at gymorth. Mae pryderon hefyd am yr effaith ar iechyd meddwl staff iechyd, gofal cymdeithasol a staff rheng flaen eraill.
- Rhagwelir y bydd effaith y pandemig ar iechyd meddwl yn para llawer hirach na'r effaith ar iechyd corfforol. Mae pryderon y gallai cyfraddau hunanladdiad godi, er efallai ei fod yn rhy gynnar i'r data ddangos effaith. Fodd bynnag, mae angen ystyried atal hunanladdiad fel mater o frys.

10. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

10.1. Deddfwriaeth

- Mae'r Pwyllgor wedi adleoli adnoddau er mwyn cynnal gwaith craffu ar nifer sylweddol o offerynnau statudol mewn ymateb i bandemig y coronafeirws (nid yn unig y rhai sy'n ymwneud â chyfyngiadau'r coronafeirws ond hefyd meysydd polisi eraill yr effeithiwyd arnynt megis cynllunio, etholiadau lleol, amaethyddiaeth a'r amgylchedd)
- Mae hyn wedi golygu bod busnes fel gwaith craffu Llywodraeth Cymru ar Femoranda Cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â Biliau Brexit arwyddocaol Llywodraeth y DU wedi cael ei wneud drwy ohebiaeth ysgrifenedig yn hytrach na sesiynau tystiolaeth lafar. Mae'r adleoli yn debygol o fod yn barhaus.
- Bydd angen i'r Pwyllgor baratoi hefyd i graffu ar y maint sylweddol o ddeddfwriaeth Cymru a'r DU a ddisgwylir wrth i gyfnod pontio Brexit ddod i ben, gan gynnwys gweithredu'r Cytundeb Ymadael ac unrhyw gytundeb ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

10.2. Cyfiawnder

- Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r coronafeirws wedi cael effaith ar y broses o weithredu argymhellion y Comisiwn Thomas ar Cyfiawnder.
- Mae'r pandemig wedi effeithio ar y ffordd y mae'r system gyfiawnder yn gweithio yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor yn parhau i drafod materion fel effaith y pandemig ar fynediad at gyfiawnder fel rhan o'i ymchwiliad i gyfiawnder.

10.3. Cyfansoddiad

- Bydd y Pwyllgor yn ystyried pa mor effeithiol oedd gwaith rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn ymateb i'r pandemig a pha wersi y gellir eu dysgu ar gyfer gweithio rhynglywodraethol yn y dyfodol.

11. Y Pwyllgor Deisebau

Mae'r deisebau yn ymwneud â'r coronafeirws wedi cynnwys ystod eang o bynciau, gan gynnwys:

- Cymorth i staff yn y GIG, gan gynnwys cymorth ar gyfer **costau angladd** ac i **weithwyr banc GIG Cymru sy'n agored i niwed ac yn feichiog**;
- Penderfyniadau am addysg, er enghraifft: **dyfarnu graddau UG** a **chyllid ar gyfer lleoliadau addysgol i fyfyrwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**;
- Cymorth ariannol i fusnesau: er enghraifft **busnesau bach, siopau mawr** ac atyniadau fel **sŵau ac acwaria; a**
- Llacio rhai cyfyngiadau, fel **y pellteroedd y gall pobl deithio** ac **ailagor gwasanaethau deintyddol**.

12. Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

12.1. Adferiad economaidd

- Mae ffigurau, megis y gostyngiad mewn Cynnyrch Domestig Gros a graddfa benthyca Llywodraeth y DU, yn ein hatgoffa o'r difrod economaidd sylweddol o ganlyniad i'r coronafeirws a'r gwaith hirdymor sydd ei angen er mwyn adfer yr economi.
- Nododd y Pwyllgor y pwysau ychwanegol yn sgil Brexit a goblygiadau hyn yn ystod yr adferiad o'r coronafeirws, heb sôn am y risg o achosion pellach o gynnydd yn y feirws a allai olygu y bydd angen dychwelyd yn ôl at y cyfyngiadau symud. Bydd hyn yn arwain at heriau penodol i Lywodraeth Cymru. Clywodd y Pwyllgor fod nifer sylweddol o swyddogion wedi cael eu hadleoli i weithio ar fesurau'r coronafeirws. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am gapasiti Llywodraeth Cymru i reoli ei hymateb i'r sefyllfa bresennol o safbwynt polisi economaidd, gan reoli materion ar yr un pryd yn ymwneud â phroses bontio'r UE sy'n prysur nesáu.

12.2. Cydweithrediad â Llywodraeth y DU

- Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am y cyfyngiadau ar Lywodraeth Cymru o beidio â chael mynediad at ddata Cyllid a Thollau ei Mawrhydi. Byddai mynediad yn ei gwneud yn haws i ddilysu unigolion a busnesau sy'n gwneud cais am gymorth ac i werthuso ceisiadau.

- Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn gwrthgyferbynnu'r dystiolaeth yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ynghylch y defnydd o gyfarwyddiadau Gweinidogol mewn perthynas â gwariant ar y coronafeirws â'r sefyllfa yng Nghymru. Dywed adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ers 4 Mai, y bu 11 cyfarwyddyd gweinidogol yn ymwneud ag ymatebion Llywodraeth y DU i'r coronafeirws. Cafwyd ceisiadau am gyfarwyddiadau Gweinidogol ac fe'u rhoddwyd i gefnogi gwariant brys; ac oherwydd nad fu'n bosibl i adrannau gynnal arfarniad mor llawn o werth am arian rhai cynlluniau ag y byddent yn eu cynnal fel arfer. Er bod gwariant Llywodraeth y DU ar raddfa wahanol, mae rhai cymariaethau â rhai cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth i fusnesau. Mae'r Pwyllgor yn deall nad oes unrhyw gyfarwyddiadau Gweinidogol wedi'u ceisio eto yng Nghymru.
- Roedd yr Aelodau'n pryderu am y cynlluniau a'r costau a wynebwr gan ysgolion wrth iddynt reoli dychweliad disgyblion gan weithredu'r gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol, a sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad at addysg ym mis Medi.
- Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi dros fisoedd yr haf.
- Bydd y Pwyllgor yn monitro datblygiadau'n ofalus mewn nifer o feysydd allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys: dyraniadau cyllid i gefnogi Llywodraeth Leol, gan gynnwys Cronfa Galedi'r Awdurdodau Lleol; yr adnoddau a ddarparwyd ar gyfer y strategaeth 'Profio, Tracio ac Olrhain'; mesurau i gefnogi pobl ddigartref drwy gydol y pandemig ac yn y dyfodol; effaith yr argyfwng ar y sector tai; a chadernid ariannol y trydydd sector yng Nghymru.

